# Adroddiad ar

# Gyngor Sir Penfro
# Neuadd y Sir
# Hwlffordd
# Sir Benfro
# SA61 1TP

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chyngor Sir Penfro

Mae Cyngor Sir Penfro wedi'i leoli yng Ngorllewin Cymru, ac mae ganddo gyfanswm poblogaeth o ychydig dros 125,000 o bobl. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal chwe ysgol uwchradd, dwy ysgol pob oed (3-16), 52 ysgol gynradd, un ysgol arbennig ac un uned cyfeirio disgyblion.

Penodwyd y Prif Weithredwr yn 2015. Dechreuodd y Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion yn ei swydd yn 2017, yn dilyn cyfnod fel Cyfarwyddwr dros dro o 2014, a phenodwyd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg yn 2017. Mae arweinydd y cyngor wedi bod yn ei swydd er 2017 a dechreuodd yr aelod cabinet dros addysg a dysgu gydol oes yn ei swydd ym mis Mai 2019. Arolygwyd yr awdurdod lleol ddiwethaf ym mis Mehefin 2011.

Mae Sir Benfro yn un o'r chwe awdurdod lleol yng nghonsortiwm rhanbarthol ERW ar gyfer gwella ysgolion.

Yn 2019-2020, cyllideb addysg net y Cyngor yw tua £88 miliwn. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yw £4,856 y disgybl, sef y 13eg uchaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ar y cyd â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc yn Sir Benfro wedi'i nodi isod:

- Dros gyfartaledd tair blynedd, mae 16.2% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 17.8%
- Mae 12.1% o ddisgyblion sy'n 5 oed ac yn hŷn yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 16.2%
- Mae 5.6% o ddisgyblion sy'n 5 oed ac yn hŷn o leiafrifoedd ethnig, sydd islaw cyfartaledd Cymru, sef 11.4%
- Mae gan 24.3% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 22.2%
- Roedd 64 o blant ym mhob 10,000 yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn 2019, sy'n is na chyfartaledd Cymru

## Crynodeb

Mae uwch swyddogion ac uwch aelodau etholedig wedi diffinio gweledigaeth uchelgeisiol, ac wedi gosod cyfeiriad strategol cryf ar gyfer gwasanaethau addysg yn Sir Benfro. Mae'r eglurder hwn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar waith tîm o fewn gwasanaethau addysg, ac mae'n arwain at gydweithio cynhyrchiol rhwng yr awdurdod a sefydliadau eraill sy'n cefnogi addysg ar draws yr awdurdod.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, i sicrhau bod ei waith yn cyd-fynd â'r strategaethau trosfwaol, mae'r awdurdod wedi mireinio ei ymagweddau at gefnogi addysg ledled y sir mewn sawl maes allweddol. Mae'r tîm gwella ysgolion ailstrwythuredig yn datblygu ei wybodaeth am ysgolion, ac mae mwy o eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau swyddogion ac arweinwyr ysgol i ddatblygu ysgolion yn sefydliadau dysgu gwydn. Er y bu'r awdurdod yn gadarn wrth ddelio â thanberfformio mewn ychydig o achosion, bu ffocws annigonol ar wella addysgu ac arweinyddiaeth mewn ysgolion.

At ei gilydd, mae'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yn ysgolion Sir Benfro yn rhy amrywiol. Mae safonau'n dda neu'n well mewn hanner yr ysgolion cynradd yn unig a arolygwyd yn y tair blynedd ddiwethaf. Er y bu gwelliannau mewn ychydig o ysgolion cynradd, mewn lleiafrif o ysgolion cynradd, mae deilliannau islaw disgwyliadau. Mae angen gwella safonau mewn llythrennedd, rhifedd a Chymraeg ail iaith mewn tua hanner yr ysgolion cynradd, a'r holl ysgolion uwchradd a arolygwyd er 2017.

Mae'r awdurdod yn datblygu dull mwy strwythuredig i gefnogi grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed. Mae gwaith i wella cyflawniad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim wedi cynyddu yn ddiweddar, yn sgil cyflwyno strategaeth fwy trylwyr, a gwelir ychydig o enghreifftiau o waith effeithiol yn y maes hwn mewn ychydig o ysgolion cynradd. Ceir systemau cynhwysfawr ac effeithiol i nodi anghenion addysgol arbennig disgyblion yn gynnar. Mae'r model Tîm o Amgylch y Disgybl, y Rhiant a'r Ysgol (TAPPAS) yn cefnogi hyn yn dda, ac mae'n rhoi cyfle i ddisgyblion, teuluoedd ac ysgolion elwa ar ystod fuddiol o gefnogaeth a chymorth arbenigol. Mae'r tîm cymorth ymddygiad yn darparu cymorth a hyfforddiant gwerthfawr. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion, yn enwedig mewn ysgolion cynradd. Fodd bynnag, mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig mewn ychydig iawn o ysgolion uwchradd, nid yw ymddygiad disgyblion yn ddigon da. At ei gilydd, mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol gryn dipyn yn uwch nag ydyw mewn ysgolion uwchradd ledled Cymru.

Mae strategaeth glir ar gyfer ad-drefnu ysgolion ledled y wlad. Mae'r gwaith i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd diwethaf yn hynod nodedig, ac yn cefnogi uchelgeisiau strategol yr awdurdod yn dda.

Mae prosesau hunanwerthuso buddiol ar waith mewn gwasanaethau addysg. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o feysydd gwaith yr awdurdod, nid yw'r gwerthuso yn ddigon trylwyr ac nid yw'r cynlluniau ar gyfer gwella yn ddigon craff. Mae hyn, ynghyd â'r diffyg eglurder yn y dulliau i wella addysgu ac arweinyddiaeth mewn ysgolion, yn golygu y bu cyflymdra'r gwelliant yn rhy araf.

## Argymhellion

A1 Codi safonau mewn ysgolion, yn enwedig mewn llythrennedd, rhifedd a Chymraeg ail iaith

A2 Gwella'r deilliannau ar gyfer yr holl grwpiau o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n fwy abl

A3 Gwella effeithiolrwydd gwaith yr awdurdod i wella addysgu ac arweinyddiaeth ysgolion

A4 Cryfhau ansawdd y gwerthuso gan swyddogion ar bob lefel i wella manylder y cynllunio ar gyfer gwelliant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae gwasanaethau addysg llywodraeth leol Sir Benfro yn peri pryder sylweddol, ac mae angen gweithgarwch dilynol arnynt. Bydd y darparwr yn diweddaru ei gynlluniau gwella i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd y darparwr trwy gynhadledd wella ôl-arolygiad a chynadleddau cynnydd. Bydd ymweliad monitro yn cael ei gynnal tua 30 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

# Prif ganfyddiadau

## Deilliannau

At ei gilydd, mae'r cynnydd a wna disgyblion yn Sir Benfro yn amrywio gormod o un ysgol i'r llall. Mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd, mae cynnydd disgyblion islaw disgwyliadau.

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae Estyn wedi barnu bod safonau'n dda neu'n well mewn tua hanner yr ysgolion cynradd. Mae hyn ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn y cyfnod hwn, rhoddwyd dwy ysgol gynradd mewn categori statudol, er bod un ysgol wedi cael ei thynnu o'r categori ers hynny. O'r tair ysgol uwchradd a arolygwyd, barnwyd bod un yn dda ar gyfer safonau, un yn ddigonol, ac un yn anfoddhaol. Ar hyn o bryd, mae tair ysgol uwchradd mewn categori statudol.

Rhoddwyd llai o ysgolion mewn categori statudol yn y tair blynedd ddiwethaf o gymharu â'r cylch diwethaf o arolygiadau. Fodd bynnag, nid yw un ysgol uwchradd a roddwyd mewn categori gweithgarwch dilynol Estyn yn y cylch blaenorol wedi gwella, ac mae bellach yn y categori mesurau arbennig.

Caiff medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion eu nodi fel diffygion mewn tua hanner yr ysgolion cynradd, ac ym mhob un o'r ysgolion uwchradd a arolygwyd er 2017. Mae cyflawniad disgyblion mewn Cymraeg mamiaith yn gryf. Fodd bynnag, mae cynnydd disgyblion mewn Cymraeg ail iaith yn faes i'w ddatblygu mewn tua hanner yr ysgolion cynradd, ac ym mhob un o'r ysgolion uwchradd. Mae diffygion yn ansawdd yr addysgu, gan gynnwys disgwyliadau isel a diffyg cyfleoedd cynyddol a chynlluniedig i ddatblygu llythrennedd, rhifedd a Chymraeg ail iaith ar draws y cwricwlwm, yn cyfyngu ar y cynnydd a wna disgyblion.

Mae perfformiad disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella dros y tair blynedd ddiwethaf, er ei fod yn parhau islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd addas, ar y cyfan. Mae disgyblion yn yr ysgol arbennig yn gwneud cynnydd hynod gryf. Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn rhy amrywiol. Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyflawniad y disgyblion hyn islaw disgwyliadau o gymharu â pherfformiad eu cyfoedion ledled Cymru.

Mae cyfran y dysgwyr ym Mlwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, wedi gostwng dros y tair blynedd ddiwethaf i fod ychydig islaw cyfartaledd Cymru.

Mae deilliannau o adroddiadau arolygu Estyn yn y sector ysgolion cynradd yn dangos bod lles y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Mewn dwy o dair ysgol uwchradd a arolygwyd, barnwyd bod lles ac agweddau at ddysgu yn ddigonol ac angen eu gwella. Mae arolygiadau ysgol yn Sir Benfro wedi darganfod bod y rhan fwyaf o ddisgyblion cynradd yn teimlo'n ddiogel a bod llawer ohonynt yn teimlo'n ddiogel mewn ysgolion uwchradd.

At ei gilydd, mae presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn cymharu'n ffafriol â lefelau mewn awdurdodau lleol tebyg. Mewn ysgolion cynradd, mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn well yn ysgolion Sir Benfro nag ydyw ar gyfer disgyblion tebyg ledled Cymru. Mewn ysgolion

uwchradd, mae presenoldeb y grŵp hwn o ddisgyblion yn is na'r darlun cenedlaethol. Mewn ysgolion cynradd, mae canran y disgyblion sy'n absennol yn barhaus yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd ledled Cymru. Mewn ysgolion uwchradd, mae'r ffigur wedi gostwng yn sylweddol dros gyfnod, ac mae wedi disgyn islaw cyfarartaledd Cymru yn ddiweddar.

Mae nifer y gwaharddiadau parhaol yn fach, ac yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru, neu'n is, ar y cyfan. Fodd bynnag, mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai yn ysgolion uwchradd Sir Benfro gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn ysgolion uwchradd. Ychydig iawn o ysgolion uwchradd sy'n cyfrif am gyfran uchel o'r gwaharddiadau hyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ysgolion cynradd yn teimlo bod eu hysgol yn eu helpu i ddeall bwyta ac yfed yn iach, a'u bod yn elwa ar gyfleoedd rheolaidd i wneud ymarfer corff. Mewn ysgolion uwchradd, mae tua hanner y disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol buddiol o leiaf unwaith yr wythnos. Mae cyfran uchel o ddisgyblion yn cael gwersi cerddoriaeth, ac yn cymryd rhan yng ngherddorfa a band y sir. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu lles.

Mae llawer o blant a phobl ifanc yn gwybod at bwy i droi os byddant yn poeni neu'n gofidio. Mae'r rhai sydd angen cymorth am faterion fel gorbryder a pherthnasoedd yn ymgysylltu'n effeithiol â chwnselwyr yn yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn ddigon hyderus i hunangyfeirio at y gwasanaethau cymorth hyn, gan ddangos llawer o annibyniaeth.

Mae plant a phobl ifanc yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu at benderfyniadau am faterion sy'n effeithio arnyn nhw. Nododd Cynulliad Ieuenctid Sir Benfro fod bwlio yn fater i'w drafod, a helpodd werthuso cynllun gwrthfwlio cyn ei roi ar waith mewn ysgolion. Mae gan y Cynulliad Ieuenctid lawer o is-bwyllgorau sy'n darparu cyfleoedd gwerth chweil i bobl ifanc gyfrannu a gwneud penderfyniadau. Mae aelodau o bwyllgor y Banc Ieuenctid, er enghraifft, yn gweinyddu cronfa grantiau leol. Maent yn annog grwpiau cymunedol ifanc i wneud ceisiadau ffurfiol am gyllid, ac yn craffu ar y ceisiadau. Un enghraifft nodedig o'r gwaith buddiol hwn yw'r grant a ddyfarnodd y Banc Ieuenctid i Warcheidwaid Iau Sir Benfro gynnal cynhadledd a amlygodd ddealltwriaeth eu cyfoedion o faterion yn ymwneud â diogelu a chamfanteisio'n rhywiol ar blant.

## Gwasanaethau addysg

O dan Faes Arolygu 2, mae Estyn yn gosod cwestiynau arolygu lleol sy'n berthnasol i bob awdurdod lleol. Mae cwestiynau arolygu lleol yn canolbwyntio ar wasanaethau addysg sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol presennol yr awdurdod lleol, neu maent yn deillio o wybodaeth sydd gan Estyn am wasanaethau addysg yn yr awdurdod lleol.

### Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn herio perfformiad ysgolion ac yn eu cefnogi i wella ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth?

Mae'r awdurdod lleol, mewn partneriaeth â'r consortiwm rhanbarthol, wedi rhoi ystod eang o fentrau a chynigion ar waith i helpu ysgolion i wella. At ei gilydd, mae gwaith yr awdurdod lleol wedi cael effaith gyfyngedig ar gynnydd lleiafrif o ysgolion

uwchradd yn arbennig. Yn ychwanegol, ni fu'r awdurdod lleol yn llwyddiannus o ran bodloni ei nodau i sicrhau bod arweinyddiaeth yn dda neu'n well ym mhob ysgol, a bu ffocws annigonol ar wella addysgu. Mae cyflymdra'r gwelliant mewn ysgolion sy'n peri pryder wedi bod yn rhy araf, ar y cyfan.

Mae uwch arweinwyr wedi cydnabod bod diffyg effaith gan y gwasanaethau gwella ysgolion. Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg hwn, fe wnaethant ailstrwythuro'r tîm gwella ysgolion ac ailddiffinio rôl yr ymgynghorwyr her o ran darparu her a chymorth i ysgolion. Mae swyddogion ac ymgynghorwyr yn datblygu perthnasoedd cynhyrchiol ag arweinwyr ysgol, a gwybodaeth gadarn am gryfderau ysgolion, a'u meysydd i'w datblygu. Maent yn ymgymryd ag ystod addas o weithgareddau monitro mewn ysgolion. Yn yr achosion mwyaf defnyddiol, maent yn ymgymryd â gweithgareddau fel teithiau dysgu ac yn craffu ar waith disgyblion ochr yn ochr ag arweinwyr ysgol. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd buddiol i ymgynghorwyr ac arweinwyr ysgol werthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu, a nodi ffyrdd o wella gyda'i gilydd. Fel rhan o ailstrwythuro'r gwasanaeth, nid yw'r awdurdod lleol yn cyflogi ymgynghorwyr cwricwlwm mwyach. Mae mwy o eglurder o fewn y gwasanaeth ac mewn ysgolion erbyn hyn am rolau staff yr awdurdod lleol, a'r rhai a gyflogir gan y consortiwm rhanbarthol mewn cefnogi gwelliant ysgolion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith y gwaith hwn mewn gwella meysydd pwysig o ddeilliannau disgyblion, fel llythrennedd, rhifedd a Chymraeg ail iaith.

Mae gweledigaeth ar y cyd o fewn yr awdurdod lleol a'i gonsortiwm rhanbarthol y mae ysgolion yn ei datblygu fel sefydliadau dysgu gwydn sy'n cymryd cyfrifoldeb am eu gwelliant eu hunain. I gyflawni'r nod hwn, mae swyddogion wedi dechrau hwyluso dulliau i ysgolion sy'n gweithio mewn clystyrau. Er enghraifft, mae un clwstwr o ysgolion wedi nodi bod angen gwella medrau ysgrifennu disgyblion. Mae pob un o'r staff yn y clwstwr yn elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n eu helpu i ddatblygu a defnyddio strategaethau i godi safonau mewn ysgrifennu. Mae'r gwaith hwn yn helpu athrawon i weld dysgu disgyblion fel continwwm ar draws yr ystod oedran, a rhannu cyfrifoldeb am y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni trwy gydol eu haddysg. Mae'r clwstwr wedi sefydlu tîm prosiect i arwain y gwaith hwn, ac mae gwerthusiadau'n dangos ei fod wedi arwain at ddulliau mwy cyson o addysgu ysgrifennu ar draws yr ysgolion cynradd ac uwchradd.

Mae uwch arweinwyr wedi datblygu proses gadarn ar gyfer nodi ysgolion sydd mewn perygl o beri pryder. Maent yn ystyried ystod eang o ddangosyddion allweddol ar draws ystod y gwasanaethau addysg i werthuso pa mor debygol yw hi y bydd angen cymorth ar ysgolion â gwahanol agweddau ar eu gwaith. Er enghraifft, maent yn ystyried lefelau presenoldeb disgyblion, prosesau diogelu a gwybodaeth ariannol yr ysgolion, ochr yn ochr â safonau cyrhaeddiad. Mae aelodau o dîm rheoli'r gyfarwyddiaeth yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i ddarparu dull o gefnogi ysgolion sydd wedi'i deilwra'n fwy i anghenion penodol yr ysgol. Er enghraifft, maent yn dyrannu ymgynghorwyr her i ysgolion lle bydd eu medrau a'u profiad penodol yn fuddiol i ysgogi gwelliant.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn defnyddio eu pwerau statudol yn briodol. Er enghraifft, maent yn cyhoeddi hysbysiadau rhybudd i ysgolion i wella arweinyddiaeth a rheolaeth, yn ogystal â gwella deilliannau ar gyfer disgyblion. Maent yn ychwanegu llywodraethwyr profiadol at gyrff llywodraethol ysgolion sy'n peri pryder i helpu llywodraethwyr i ddarparu lefelau gwell o her i arweinwyr ysgol. Mae swyddogion

wedi sefydlu byrddau gwella addysg ar gyfer ysgolion sydd mewn categorïau cymorth coch ac ambr. Mae'r dirprwy gyfarwyddwr addysg a'r prif ymgynghorydd her yn cyfarfod yn rheolaidd ag aelodau bwrdd i fonitro'r cynnydd y mae ysgolion yn ei wneud, a dwyn arweinwyr a llywodraethwyr ysgol i gyfrif am y cynnydd hwn. Bu'r broses hon yn fwy llwyddiannus gydag ysgolion cynradd na gydag ysgolion uwchradd. Mae'r ychydig iawn o ysgolion cynradd sydd angen eu gwella'n sylweddol wedi gwneud cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r diffygion o'u harolygiadau craidd.

Mae lleiafrif o ysgolion uwchradd mewn categorïau statudol yn dilyn arolygiad. Mae'r awdurdod lleol wedi cynorthwyo'r ysgolion hyn i fynd i'r afael â diffygion mewn arweinyddiaeth trwy eu helpu i ailstrwythuro timau staff, a recriwtio arweinwyr newydd. Mae swyddogion yn darparu mentoriaid ar gyfer uwch arweinwyr a benodwyd yn ddiweddar i'w cynorthwyo yn eu rolau newydd. Maent yn nodi cyfleoedd dysgu proffesiynol addas ar gyfer arweinwyr ac athrawon i'w helpu i wella eu harfer. Er enghraifft, maent wedi sefydlu trefniadau gweithio agos rhwng ysgolion y mae angen cymorth arnynt, ac ysgolion sy'n perfformio'n dda ar draws y rhanbarth, a thu hwnt. Maent yn brocera cymorth teilwredig ar gyfer adrannau sy'n tanberfformio mewn ysgolion uwchradd. Er gwaethaf y mentrau a'r adrannau, mae cyflymdra'r gwelliant yn yr ysgolion hyn yn parhau i fod yn rhy araf.

Mae'r awdurdod lleol a'i gonsortiwm rhanbarthol yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil ar gyfer uwch arweinwyr ac arweinwyr canol mewn ysgolion i gymryd rhan mewn rhaglenni arweinyddiaeth cenedlaethol. Mae uwch swyddogion o fewn y gyfarwyddiaeth addysg yn darparu cymorth ar gyfer arweinwyr ysgol newydd, ac ar gyfer y rhai sydd angen cymorth ychwanegol trwy amrywiaeth o weithgareddau hyfforddi a mentora. Fodd bynnag, ni fu'r awdurdod lleol yn llwyddiannus o ran bodloni'r nodau i sicrhau bod arweinyddiaeth yn dda neu'n well ym mhob ysgol. Mewn ysgolion a arolygwyd er 2017, mae mwyafrif o ysgolion uwchradd wedi cael barnau digonol ar gyfer arweinyddiaeth. Yn ystod y cyfnod hwn, mae deilliannau ar gyfer arweinyddiaeth mewn ysgolion cynradd yn well, a barnwyd bod arweinyddiaeth yn rhagorol mewn ychydig iawn o ysgolion cynradd. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion cynradd, mae arweinyddiaeth yn ddigonol ac angen gwelliant.

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, a phob un o'r ysgolion uwchradd a arolygwyd er 2017, argymhellion i wella agweddau ar addysgu. Er bod staff gwella ysgolion o'r awdurdod a'r consortiwm rhanbarthol yn gweithio gydag ysgolion unigol i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn, nid oes gan yr awdurdod ddull strategol clir i wella ansawdd yr addysgu. Dros gyfnod, cyfyngedig fu effaith y gwaith i wella addysgu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

### Pa mor effeithiol y mae gwasanaethau addysg yn cefnogi cynnydd disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim?

At ei gilydd, nid yw'r ddarpariaeth i wella'r deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim wedi'i datblygu'n ddigonol. Nid yw ymateb yr awdurdod lleol i berfformiad gwan y disgyblion hyn dros gyfnod wedi cael digon o effaith ar eu cynnydd.

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu ychydig o brosiectau arloesol i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae'r rhain yn cynnwys ystod addas o wersi cerddoriaeth a chyfleoedd datblygiad

chwaraeon, a phrosiect 'Cynnydd', sy'n cynorthwyo pobl ifanc a allai ymddieithrio o addysg, fel arall. Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi cymryd cam arloesol i benodi 'hyrwyddwyr prydau ysgol am ddim' ym mhob clwstwr ysgolion i gynorthwyo ysgolion i ddewis a datblygu'r dulliau mwyaf priodol o fynd i'r afael â thlodi ac anfantais. Mae gan lawer o ysgolion yn yr awdurdod lleol arfer sy'n cynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed yn dda iawn. Yn yr enghreifftiau cryfaf, maent yn ymgymryd â gweithio amlasiantaethol effeithiol, ac yn cyflwyno dysgu cymunedol a dysgu teuluol buddiol. Mae'r ysgolion hyn yn gwerthuso effaith y gwaith hwn yn dda, a gallant ddangos bod y strategaethau hyn yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i gyflawniad disgyblion dan anfantais.

Mewn partneriaeth â'r consortiwm rhanbarthol, mae'r awdurdod lleol wedi datblygu strategaeth glir a phriodol i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion. Fodd bynnag, ni chaiff y weledigaeth ei rhannu'n ddigon eang ac nid yw swyddogion yn ei deall yn ddigonol. Hefyd, ni chaiff swyddogion olwg digon clir ar yr hyn sy'n gweithio'n dda, sut i rannu arfer effeithiol, a sut i sicrhau bod eu dull yn gydlynus a chyfannol. Nid yw'r awdurdod lleol yn trefnu darpariaeth benodol ar gyfer plant mwy abl sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

Mae ymgynghorwyr her yn ymgymryd â gweithgareddau i sicrhau bod ysgolion yn canolbwyntio'n briodol ar gynnydd disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae'r awdurdod lleol wedi sicrhau bod gan yr holl ymgynghorwyr her darged yn gysylltiedig â phrydau ysgol am ddim o fewn eu cynlluniau rheoli perfformiad unigol, ac mae hyn yn sicrhau bod ffocws cyson ar y maes hwn. Mae'r awdurdod lleol yn monitro cydymffurfiaeth ysgolion â thelerau ac amodau'r grant datblygu disgyblion. Fodd bynnag, nid yw swyddogion yn gwerthuso effaith strategaethau penodol i wella deilliannau ar gyfer disgyblion cymwys yn ddigon effeithiol.

At ei gilydd, mae'r diffyg ffocws cynaledig dros gyfnod, ynghyd â dulliau anghyson o fynd i'r afael â thanberfformio ymhlith disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn golygu nad yw'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd digonol o gymharu â'u cyfoedion ledled Cymru.

**Pa mor effeithiol yw'r ALl o ran sicrhau bod disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cael eu nodi'n gynnar, ac o ran darparu cymorth a monitro, yn ôl yr angen?**

Mae gan yr awdurdod lleol systemau effeithiol ar waith ar gyfer nodi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gynnar ar draws pob oedran.

Mae model Tîm o Amgylch y Disgybl, y Rhiant a'r Ysgol (TAPPAS) wedi'i sefydlu'n dda. Mae dull TAPPAS yn darparu ymateb graddedig gwerthfawr a chymorth effeithiol yn benodol i anghenion disgyblion ar draws pob oedran. Nod cyfarfodydd ymgynghori a chynllunio 'TAPPAS 1' yw gwella cyflawniad addysgol ar gyfer pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i ysgolion gael cymorth a chyngor ychwanegol i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion gan ystod o weithwyr proffesiynol. Mae cyfarfodydd 'TAPPAS 2' bob tymor yn fforymau ar draws clystyrau sy'n darparu rhwydwaith effeithiol i gefnogi staff ysgol a Chydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY). Maent yn cynnwys cyfleoedd buddiol ar gyfer dysgu proffesiynol, a rhannu arfer dda. Defnyddir y cyfarfodydd hyn yn effeithiol i nodi ble mae angen cymorth ychwanegol, a darparu cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth fwy arbenigol, lle bydd angen.

Mae'r Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni mewnol yn cynnig cymorth cryf i deuluoedd. Mae'n darparu ystod o wasanaethau, gan gynnwys llinell gyswllt ffôn ac arweiniad a chymorth i gyfeirio teuluoedd at wasanaethau sydd ar gael. Mae'n darparu gweithdai hyfforddiant gwerthfawr hefyd, ac yn gweithio gyda theuluoedd unigol y gallai fod angen cymorth mwy dwys arnynt. Mae'r gwasanaeth yn arwain cyfarfodydd clwstwr tymhorol 'TAPPAS 3'. Mae'r rhain yn darparu rhwydwaith effeithiol ar gyfer rhieni, yn hwyluso cymorth rhwng cyfoedion, ac yn cynnig arweiniad gwerthfawr i rieni gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol. Mae cyfarfodydd TAPPAS 3 yn helpu nodi a mynd i'r afael â themâu cyffredin ar draws ysgolion ac ymhlith teuluoedd i gefnogi system gynhwysfawr o ran nodi a chymorth cynnar.

Mae gan Wasanaeth y Blynyddoedd Cynnar brosesau sefydledig o ran nodi'n gynnar a threfniadau cryf ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ag ystod o ddarparwyr gwasanaeth, fel pediatregwyr, awdiolegwyr a'r gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith. Mae bron pob un o'r ysgolion cynradd a nifer gynyddol o feithrinfeydd a gynhelir ac nas cynhelir y blynyddoedd cynnar yn sgrinio pob un o'r disgyblion yn rheolaidd pan fyddant yn dechrau yn y lleoliad, i asesu unrhyw anawsterau llythrennedd neu gyfathrebu. Mae canlyniadau'r asesiadau hyn yn darparu gwybodaeth werthfawr i lywio cyfarfodydd TAPPAS y blynyddoedd cynnar. Yn ddiweddar, cyflwynodd yr awdurdod lleol Becyn Cymorth y Blynyddoedd Cynnar i gynorthwyo lleoliadau i wella eu hunanwerthuso. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith y gwaith hwn.

Mae amrywiaeth o offer sgrinio ac asesu gwerthfawr ar waith ar draws yr holl ysgolion cynradd a'r cylchoedd chwarae nas cynhelir. Mae'r awdurdod lleol yn olrhain deilliannau disgyblion, ac mae'n dechrau defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, ar draws y gwasanaeth, ni chaiff ystod y data ei defnyddio'n ddigon da i werthuso cynnydd disgyblion, nac i nodi effeithiolrwydd y dulliau.

Mae gan yr awdurdod lleol feini prawf clir ar gyfer atgyfeiriadau at y paneli Cynhwysiant a'r Blynyddoedd Cynnar. Trwy ddull TAPPAS, gall pob un o'r ysgolion atgyfeirio disgyblion at y panel priodol am gymorth ychwanegol, adnoddau, neu leoliad mewn darpariaeth arbenigol. O ganlyniad i welliannau diweddar, mae prosesau'r panel ar gyfer lleoli plentyn mewn Canolfan Adnoddau Dysgu neu ysgol arbennig yn syml a chlir.

Mae blaenoriaethau'r gyfarwyddiaeth ar gyfer y gwasanaeth yn cynnwys gwerthuso strategaethau'r awdurdod lleol ar gyfer atal a nodi'n gynnar. Ar hyn o bryd, mae gan bob un o'r timau gynlluniau ar waith. Fodd bynnag, nid yw'r holl gynllunio yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau yn ddigon da. O ganlyniad, mae hyn yn lleihau effaith y cynllunio ar gyfer gwelliant yn yr agwedd hon ar waith yr awdurdod lleol.

**Pa mor dda y mae gwasanaethau addysg yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol?**

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod wedi diweddaru ei strategaeth ymddygiad a'i arweiniad gweithredol i ystyried newidiadau, yn unol â diwygiadau o ran Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru, er enghraifft. Mae'r awdurdod wedi buddsoddi adnoddau mewn dull penodol i wella ymddygiad, gyda'r nod i ddatblygu cysondeb mewn rheoli ymddygiad mewn ysgolion, sy'n ganolog i'w strategaeth.

Mae'r tîm cymorth ymddygiad yn darparu ystod werth chweil o hyfforddiant ac arweiniad ar gyfer athrawon o ran ei ddull o reoli ymddygiad, a dewislen gymorth, sydd wedi cael croeso da. Mae swyddogion yn y tîm yn arddangos gwybodaeth a

dealltwriaeth drylwyr o arferion a strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol. Mae eu gweithredoedd yn helpu athrawon i wella'r ffordd y maent yn rheoli ymddygiad. Mae hyn yn cyfrannu at leihau cyfradd y gwaharddiadau o bum niwrnod neu lai mewn ysgolion cynradd yn sylweddol.

Er gwaethaf y cynnydd hwn yn y sector cynradd, mae'r gyfradd gyfatebol ar gyfer disgyblion uwchradd wedi cynyddu, ac yn parhau gryn dipyn yn uwch na'r gyfradd ar gyfer disgyblion yng Nghymru. Ar y cyfan, mae hyn o ganlyniad i gyfraddau gwaharddiadau uchel iawn mewn ychydig o ysgolion uwchradd. Yn ddiweddar, mae'r awdurdod wedi cynorthwyo'r ysgolion hyn i ddatblygu darpariaeth werth chweil i gynorthwyo disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Er bod arwyddion cynnar cadarnhaol, mae'n rhy gynnar i gael amcan o effaith y dulliau hyn.

Mae swyddogion yn cyfathrebu'n dda â lleoliadau ac ysgolion trwy gyfarfodydd TAPPAS rheolaidd. Yn ychwanegol, maent yn cymryd rhan mewn briffiau gwasanaeth rheolaidd i rannu gwybodaeth ynghylch darparwyr unigol. Mae'r briffiau hyn yn galluogi'r gwasanaeth cymorth ymddygiad i hysbysu cyd-swyddogion am eu gwaith, ac yn galluogi pob tîm i alinio eu gweithgarwch yn fuddiol.

Caiff disgyblion a phobl ifanc gyfle da i elwa ar gyfres eang o wasanaethau cymorth yn yr ysgol, a'r tu allan. Mae swyddogion o dimau arbenigol, gan gynnwys datblygu chwaraeon, cerddoriaeth a'r gwasanaeth ieuenctid, yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau difyr. Mae pobl ifanc sy'n troseddu, neu sydd mewn perygl o droseddu, yn cael cymorth personol priodol, ac fe gânt eu helpu'n briodol i ymgysylltu o'r newydd ag addysg a'u cymunedau.

Mae'r awdurdod yn monitro gwaharddiadau yn briodol, gan gynnwys gwaharddiadau grwpiau sy'n agored i niwed. Mae swyddogion yn meddu ar wybodaeth gynhwysfawr am broffil disgyblion unigol sy'n elwa ar gymorth trwy Ganolfan Ddysgu Sir Benfro neu Brosiect Cynnydd, a'r cymwysterau y maent yn eu hennill. Fodd bynnag, er gwaethaf y pwyslais hwn ar ddysgwyr unigol, nid yw'r arfer o werthuso strategaethau a dulliau ehangach ar lefel tîm wedi'i datblygu'n ddigonol, ac nid yw swyddogion yn monitro cynnydd tuag at dargedau nac yn gwerthuso effaith eu gwaith yn ddigon da.

**Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn mynd i'r afael â materion ad-drefnu ysgolion, gan gynnwys ystyried lleoliadau nas cynhelir, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a darpariaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16?**

Mae strategaeth yr awdurdod lleol ar gyfer ad-drefnu ei ysgolion yn adlewyrchu ei weledigaeth ar gyfer hyrwyddo safonau addysgol uchel trwy gyflwyno addysg gynradd ac uwchradd effeithlon ar gyfer dysgwyr. Mae'n cynnal adolygiadau strategol pwrpasol ar sail ardal i sicrhau bod yr ysgolion cywir o'r math cywir yn y lleoedd cywir, a sicrhau eu bod yn addas ar gyfer eu dysgwyr. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r awdurdod lleol wedi sicrhau cyllid sylweddol trwy grantiau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ansawdd y cyflenwad ysgolion yn dda, ac yn diwallu anghenion dysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o'r cynigion dros y pum mlynedd ddiwethaf wedi canolbwyntio'n dda ar ehangu darpariaeth yr awdurdod lleol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, uno neu ffedereiddio ysgolion cynradd llai, yn ogystal ag ad-drefnu addysg gynradd ac uwchradd ym Mhenfro, Hwlffordd a phenrhyn Tyddewi. Yn ychwanegol, mae ychydig o gynigion wedi ehangu ystod oedran ysgolion i ddarparu mwy o gyfleoedd i

ddisgyblion oedran meithrin gael addysg gynnar. Mae hyn yn ffurfio rhan o strategaeth yr awdurdod lleol i sicrhau bod lleoliad y lleoliadau nas cynhelir yn ychwanegu at y ddarpariaeth mewn ysgolion yn effeithiol i annog mwy o blant i fynychu. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n dda gyda phartneriaid strategol i dargedu meysydd allweddol lle mae'r nifer sy'n manteisio ar y lleoedd hyn yn isel.

Un o nodweddion cryf rhaglen ad-drefnu ysgolion yr awdurdod lleol yw ei gwaith i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y sir gyfan. Mae hyn yn cysylltu'n dda â thargedau yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP), sy'n amlinellu sut mae'r awdurdod lleol yn bwriadu cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae wedi bod yn feiddgar ac yn uchelgeisiol yn ei gynigion i ad-drefnu ysgolion, sydd wedi cynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau newydd. Enghraifft dda iawn o hyn yw'r ysgol 3-16 newydd a sefydlwyd yn Hwlffordd, sef Ysgol Caer Elen. Un o nodweddion allweddol y dull hwn yw integreiddio darpariaeth cyn-ysgol yn yr ardal, sy'n sicrhau cyfle i bob plentyn elwa ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ni waeth beth yw iaith eu cartref. Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'i gyflenwad presennol o adeiladau yn dda hefyd i hwyluso ehangu ysgolion cyfrwng Cymraeg, er enghraifft trwy sefydlu Ysgol Hafan y Môr gan ddefnyddio Ysgol Fabanod Dinbych-y-pysgod, a adnewyddwyd ar ôl iddynt drosglwyddo i safle ysgol newydd.

Mae'r awdurdod lleol wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o ysgolion uwchradd a'i ddarpariaeth chweched dosbarth ar draws y sir. O ganlyniad, mae'r awdurdod lleol, trwy gydweithio â'r coleg addysg bellach lleol, yn ad-drefnu darpariaeth ôl-16 i wella ystod, hygyrchedd a chost-effeithiolrwydd cyrsiau priodol ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, mae'r cyfle i elwa ar opsiynau galwedigaethol ôl-16 yn gyfyngedig o hyd, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd cyflogaeth pobl ifanc a chynlluniau ar gyfer adfywio economaidd lleol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae uwch aelodau etholedig ac uwch swyddogion wedi ymrwymo i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr yn Sir Benfro, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer gwella. Mae gan yr awdurdod lleol weledigaeth ddyheadol fod 'pob plentyn yn cyflawni ac yn cyfrannu mwy nag yr oedd yn meddwl ei fod yn bosibl'. Mae'r weledigaeth hon yn ategu Rhaglen y Cabinet ar gyfer Gweinyddu 2018-2022 a Chynllun Corfforaethol 2019-2020. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn gosod cyfeiriad strategol cryf ar gyfer gwasanaethau addysg, gan roi ystyriaeth dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer gwella. Mae Cynllun Plant ac Ysgolion y Gyfarwyddiaeth 2019-2020 yn datblygu'n fuddiol yr amcanion strategol yn feysydd penodol ar gyfer gweithredu.

Mae aelodau etholedig, staff mewn gwasanaethau addysg, ysgolion a phartneriaid allanol yn rhannu'r weledigaeth ar gyfer dysgwyr, ac yn cefnogi cyfeiriad strategol yr awdurdod. Mae'r awdurdod wedi datblygu perthnasoedd cryf a chydweithredol ag ysgolion a phartneriaid allanol, fel y coleg addysg bellach.

Mae tîm rheoli'r gyfarwyddiaeth, a ailstrwythurwyd yn ddiweddar, yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddarparu arweinyddiaeth gadarn ar gyfer gwasanaethau addysg. Trwy eu cyfarfodydd a thrwy'r Bwrdd Rheoli Perfformiad, sy'n cynnwys uwch aelodau etholedig ac uwch swyddogion eraill, maent yn monitro cynnydd yn erbyn amcanion

strategol yn systematig, yn ogystal â monitro cynnydd mewn ysgolion unigol sy'n peri pryder. Caiff risgiau yn gysylltiedig â gwasanaethau addysg eu rheoli'n dda.

Mae arweinwyr yn gwneud penderfyniadau priodol pan na fyddant yn fodlon â chynnydd mewn ysgolion. Er enghraifft, mae'r awdurdod wedi cyhoeddi hysbysiadau rhybudd i ysgolion sy'n peri pryder, ac wedi defnyddio'i bwerau i benodi llywodraethwyr ychwanegol, ac mewn un ysgol, i atal hawl y corff llywodraethol i gyllideb ddirprwyedig.

Mae'r awdurdod yn gweithio'n rhagweithiol gydag awdurdodau lleol eraill i gefnogi gwelliant mewn gwasanaethau addysg ac ysgolion. Mae gan yr awdurdod rôl arwyddocaol yng ngwaith ERW, y consortiwm rhanbarthol, ac mae'n ymdrechu i sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion lleol. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol mewn gwasanaethau addysg yn cysylltu'n dda ag arweinwyr mewn awdurdodau lleol eraill i ddysgu oddi wrthynt a chydweithio.

Mae'r gyfarwyddiaeth wedi sefydlu prosesau ar gyfer cynllunio gwelliant a gwerthuso ei wasanaethau, ac yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn wedi arwain at welliannau mewn deilliannau mewn meysydd allweddol. Mae prosesau cynllunio a gwerthuso yn rhoi ystyriaeth briodol i safbwyntiau rhanddeiliaid, gan gynnwys penaethiaid a llywodraethwyr. Yn gyffredinol, mae arweinwyr tîm yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau corfforaethol a blaenoriaethau'r gyfarwyddiaeth, ac mae mwyafrif y cynllunio a gwerthuso gan dimau wedi'i gysylltu'n glir â'r blaenoriaethau hyn. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o dimau unigol yn alinio eu prosesau gwerthuso yn ddigon da â'r amcanion yng Nghynllun y Gyfarwyddiaeth. O ganlyniad, nid yw swyddogion yn gwerthuso'r deilliannau y mae plant a phobl ifanc yn eu cyflawni trwy'r gwasanaethau hyn yn ddigon cyson. Mewn lleiafrif o feysydd, nid yw prosesau sicrhau ansawdd a gwerthuso yn ddigon trylwyr i fesur effaith a sicrhau cyflymdra priodol i newid a gwelliant.

Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da yn unol â llawer o'r argymhellion a wnaed yn yr arolygiad blaenorol. Mae'r cynnydd yn unol â'r argymhelliad ynghylch darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi bod yn hynod gryf. Fodd bynnag, mae cynnydd yn unol â lleiafrif o argymhellion, fel codi safonau a gwella hunanwerthuso, wedi bod yn fwy cyfyngedig.

Mae prosesau rheoli perfformiad unigol wedi eu sefydlu'n dda. Mae swyddogion ar bob lefel yn ymgymryd â dysgu proffesiynol ac fe geir cydbwysedd priodol rhwng cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol yn seiliedig ar ddyheadau unigol a'r meysydd hynny y nodwyd eu bod yn flaenoriaethau i'r gyfarwyddiaeth, er enghraifft gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae llawer o swyddogion ac uwch reolwyr wedi ymgymryd â dysgu proffesiynol addas, er enghraifft achrediad y Llwybr Arweinyddiaeth, i helpu cynllunio olyniaeth. Ceir enghreifftiau da o swyddogion yn dysgu o arfer effeithiol mewn mannau eraill, gan arwain at welliant strategol sylweddol, fel y gwaith a wnaed i ymestyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae gan yr awdurdod ystod briodol o bolisïau a gweithdrefnau i gefnogi rheoli dyletswyddau diogelu o fewn yr adran, ac ar draws ysgolion yr awdurdod lleol. Yn benodol, mae'r polisi a'r gweithdrefnau ynglŷn â recriwtio staff yn ddiogel yn glir, ac yn darparu strwythur addas i sicrhau bod yr agwedd hon yn cael ei rheoli'n briodol.

Mae’r awdurdod yn cynnal archwiliadau diogelu o’i ysgolion yn rheolaidd. Mae’r archwiliadau hyn yn gwirio gweithdrefnau lleol, ac yn dangos bod yr awdurdod yn gwrando’n ofalus ar safbwyntiau staff a disgyblion. Maent yn arwain at ddeilliannau clir, sy’n cael eu hadrodd i’r grŵp rheoli diogelu addysg. Caiff unrhyw gamau ar gyfer gwella eu hymgorffori gan yr ysgol yn ei chynllun datblygu, ac fe gaiff cynnydd yn unol â’r camau gweithredu hyn ei fonitro’n effeithiol gan yr ymgynghorydd her.

Mae’r awdurdod yn defnyddio ymagwedd ragweithiol at ddarparu hyfforddiant a chymorth i ysgolion ynglŷn â’u dyletswyddau o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015. Mae hyn yn cynnwys polisi generig ar gyfer ysgolion ynghylch Atal, sy’n amlinellu dyletswyddau’r ysgol a sut i ymateb yn glir, yn ogystal ag amlygu pwysigrwydd cyfraniad y cwricwlwm at feithrin gwydnwch ymhlith disgyblion.

Mae’r awdurdod wedi cyhoeddi arweiniad defnyddiol i ysgolion ar reoli cwynion yn effeithiol. Mae’r arweiniad hwn yn amlinellu’n glir ar gyfer ysgolion yr hyn sy’n ddisgwyliedig ohonynt, o ran rheoli cwynion yn deg ac i gyrff llywodraethol ymchwilio i’r rhain yn wrthrychol. Mae hyn yn cynnwys rheoli’n briodol y cwynion hynny a allai effeithio ar agweddau ar ddiogelu.

Mae’r awdurdod yn gwerthuso ei waith diogelu parhaus yn effeithiol trwy’r grŵp diogelu mewn addysg, ac yn defnyddio’r broses hon yn briodol i nodi meysydd i’w datblygu a’u gwella yn ei systemau. Fodd bynnag, nid yw’r arfer o adrodd am weithgarwch diogelu i aelodau etholedig trwy graffu yn cofnodi’r gwaith da sy’n cael ei wneud ar lefel weithredol yn ddigon da, nac yn darparu dadansoddiad digon clir o risgiau neu feysydd i’w datblygu sy’n dod i’r amlwg.

Mae dyraniad adnoddau’r awdurdod i’w wasanaethau addysg yn adlewyrchu’r flaenoriaeth a bennir i addysg yn y cynllun corfforaethol. Mae’r awdurdod wedi dangos ei ymrwymiad trwy wneud penderfyniadau i flaenoriaethu’r gyllideb addysg ar adeg o ostyngiadau yn y gyllideb ar draws gwasanaethau eraill, ond mae’n cydnabod bod cynnal hyn yn gynyddol heriol.

Mae’r awdurdod yn llunio adroddiadau monitro cyllideb ar gyfer y Cabinet, sy’n amlinellu’r sefyllfa o ran y gyllideb yn ystod y flwyddyn, ac yn cynnwys sylwadau defnyddiol ar y sefyllfa gyllidebol barhaus.

Gorwariwyd y gyllideb addysg yn 2018-2019 a rhagwelir y bydd yn gorwario eto yn ystod 2019-2020. Er bod gan 94% o ysgolion gronfa wrth gefn gadarnhaol ar 31 Mawrth 2019, mae’r awdurdod yn rhagweld y bydd hyn yn cael ei ostwng i sero ar ddiwedd 2019-2020, ac mae’n gweithio gydag ysgolion i leihau’r gorwario a’r effaith ar gronfeydd wrth gefn.

Mae’r awdurdod yn gweithio gydag ysgolion i ddeall y pwysau ariannol sy’n eu hwynebu yn y tymor byr a’r tymor canolig. Mae gan yr awdurdod ymagwedd sy’n canolbwyntio ar y dyfodol at reolaeth ariannol mewn ysgolion, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o iechyd ariannol ysgolion, gan ddefnyddio rhagdybiaethau cyson o ran y gyllideb, meincnodi ac amcangyfrif ynghylch niferoedd disgyblion. Yn ddiweddar, diwygiodd yr awdurdod y ‘Cynllun ar gyfer Ariannu Ysgolion’ ac fel rhan o hyn, defnyddir y ‘Fframwaith Her ac Ymyrraeth’ ar gyfer yr ysgolion prin iawn sydd â diffyg yn eu cyllideb.

Mae gan yr awdurdod ystod gynhwysfawr o gytundebau lefel gwasanaeth sy’n rhoi hyblygrwydd i ysgolion gael eu cynnwys yn y rhannau o’r cytundebau sydd fwyaf addas iddyn nhw.  Mae’r nifer sy’n manteisio ar y rhain yn uchel, ar y cyfan.

Mae fformiwla cyllid yr awdurdod ar gyfer ysgolion yn ystyried ffactorau perthnasol. Gwnaed rhai newidiadau i’r fformiwla yn y blynyddoedd diwethaf, ac fe gaiff ei adolygu’n rheolaidd.

Mae’r awdurdod yn gweithio gydag ystod o bartneriaid o fewn Sir Benfro, ac yn rhanbarthol.  Mae’r awdurdod wedi dangos parodrwydd i adolygu’r model cyflwyno ar gyfer rhai o’i wasanaethau a gomisiynir hefyd, a phenderfynodd gyflwyno’r ‘Bartneriaeth Rhieni’ yn fewnol, er enghraifft.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad
- yn dadansoddi 956 o ymatebion i'r arolwg, a oedd yn cynnwys safbwyntiau 41 o ddysgwyr, 532 o rieni/gofalwyr, 293 o staff neu lywodraethwyr ysgol, 25 aelod o staff o'r awdurdod lleol neu'r gwasanaethau addysg rhanbarthol, a 65 o ymatebwyr eraill
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag amrywiaeth o bartneriaid perthnasol y gwasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid, llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a thrydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod ag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion ac unrhyw un arall sy'n allweddol i reoli neu gyflwyno gwasanaethau addysg lleol
- yn ystyried prosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol, a chanlyniadau'r rhain
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau perthnasol, gan gynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, gan gynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynir i'r cyngor neu'r swyddogaeth graffu, gwybodaeth am ddiogelu dysgwyr ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol y mae Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru neu asiantaethau perthnasol eraill yn ei chadw

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- rhoi copi cyfrinachol a drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol er mwyn iddo nodi unrhyw bryderon ynghylch cywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau lle bo'r angen

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/02/2020